Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

PECYN CYMORTH GARDDWYR

# PROFFIL PLANHIGYN

## Triaglog goch

YMLEDOL

FFEITHIAU | ID | HELPWCH | TIPIAU | MWY O BROFFILIAU



## Disgrifiad o'r rhywogaeth

**Enw gwyddonol:**
*Centranthus ruber*

**Enw Saesneg:**
Red valerian

**Brodorol i:**
De orllewin Ewrop a Môr y Canoldir


Cronfa Treftadaeth Heritage Fund

Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government


Lluniau: NWWT Lisa Toth

FFEITHIAU | ID | HELPWCH | TIPIAU | MWY O BROFFILIAU

# Ffeithiau diddorol



## Effeithiau:

Mae gwreiddiau triaglog goch yn tyllu i mewn i graciau ac uniadau morter a gallant lacio gwaith brics a cherrig mewn waliau ac adeiladau. Gall triaglog goch gael y gorau ar blanhigion eraill, yn enwedig ar glogwyni arfordirol.



## Cynefin:

Mae'n ffafrio cynefinoedd agored sy'n draenio'n  dda, lle mae tarfu wedi digwydd. Waliau, hen adeiladau, palmentydd ac ymylon ffyrdd, clogwyni arfordirol a cherrig mân.

Planhigyn lluosflwydd llysieuol lled-fytholwyrdd gyda choesynnau coediog mewn planhigion aeddfetach. Mae triaglog goch yn blanhigyn adnabyddus am ddianc o erddi ac mae ganddo ddosbarthiad eang. Cafodd ei gyflwyno i Brydain yn 1596 a'i gofnodi yn gyntaf yn y gwyllt yn 1698.

## Sut mae'n lledaenu:

Mae'r hadau'n cael eu gwasgaru gan y gwynt.

BRIG

Lluniau: NWWT Lisa Toth

# Nodweddion adnabod allweddol

Dail cyferbyniol gwyrdd canolig yn y gwanwyn yn troi'n llwydwyrdd.





Clystyrau o flodau bach pinc rhuddgoch neu wyn, ychydig yn bersawrus ar ddiwedd y gwanwyn i'r hydref, ac wedyn codau hadau blewog.










Lluniau: NWWT Lisa Toth


## Gweithredu

# Helpu i atal y lledaeniad




Tynnu'r pennau marw ar ôl i'r blodau bylu i atal yr hadau rhag gwasgaru.





Cael gwared ar yr eginblanhigion drwy eu tynnu. Cael gwared ar y planhigyn cyfan drwy ei dynnu neu ei gloddio, gan gymryd gofal i gael gwared ar y gwreiddiau.

Os nad yw planhigyn yn hawdd cael gwared arno, torri'r tyfiant ffres oddi arno yn y gwanwyn ac atal y blodau a phennau'r hadau rhag datblygu.



Compostio gartref neu drwy gyfleusterau gwastraff gardd y cyngor.

Edrych ar ein cyngor ni ar gyfer syniadau am blanhigion amgen.



BRIG

# Cyngor defnyddiol

## Deddfwriaeth

Nid yw wedi'i rhestru mewn deddfwriaeth ar hyn o bryd fel rhywogaeth ymledol.




## Rhywogaethau tebyg:

Peidiwch â drysu rhyngddi â'r driaglog frodorol (*Valeriana officinalis*).




## Syniadau am blanhigion amgen

### Brodorol


Milddail (*Achillea millefolium*)

Grug (*Calluna vulgaris*)

### Anfrodorol

Briweg iâr fach yr haf (*Hylotelephium spectabile*)

Isop (*Hyssopus officinalis*)




BRIG

Lluniau: NWWT Lisa Toth.
Darluniau: David Setter @doodleplant a starfishonline.co.uk
Gwybodaeth wedi'i chasglu gan GB NNSS, RHS a BSBI.